

## **DEDDF TAI (CYMRU) 2014**

---

### **EXPLANATORY NOTES**

#### **SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU**

##### **Rhan 1 Rheoleiddio Tai Rhent Preifat**

##### *Adran 17 – Dirymu cofrestrriad*

35. Mae awdurdod trwyddedu'n gallu dirymu cofrestrriad landlord o dan amgylchiadau penodol. Dyma hwy: a) pan fo'r landlord wedi darparu i'r awdurdod trwyddedu gwybodaeth anwir neu gamarweiniol wrth wneud cais am gofrestrriad o dan adran 15 neu wrth gydymffurfio â'r ddyletswydd i hysbysu'r awdurdod trwyddedu am newid mewn amgylchiadau o dan adran 16; b) pan fo'r landlord wedi methu â hysbysu'r awdurdod trwyddedu am newid fel sy'n ofynnol gan adran 16; ac c) methu â thalu ffi am barhau ar y gofrestr (gweler adran 15(4)).
36. Cyn dirymu cofrestrriad, rhaid i awdurdod trwyddedu gymryd camau penodol. Rhaid iddo hysbysu'r landlord am ei fwriad i ddirymu'r cofrestrriad a'r rhesymau dros wneud hynny. Rhaid iddo hefyd ganiatáu 21 o ddiwrnodau i'r landlord gyflwyno sylwadau mewn perthynas â'r penderfyniad o'r dyddiad y caiff y landlord ei hysbysu. Nodir y broses ar gyfer rhoi hysbysiadau yn adran 48.
37. Ar ôl dirymu cofrestrriad, rhaid i'r awdurdod cofrestru hysbysu'r landlord am y dirymiad a'r rhesymau dros wneud hynny a darparu gwybodaeth am yr hawl i apelio. Caiff landlord y mae ei gofrestrriad wedi ei ddirymu apelio yn erbyn y penderfyniad i driwlynlys eiddo preswyl. Rhaid dwyn apêl cyn pen 28 o ddiwrnodau ar ôl i'r landlord gael ei hysbysu am y penderfyniad. Mewn apêl, caiff triwlynlys gadarnhau penderfyniad yr awdurdod trwyddedu i ddirymu cofrestrriad neu gyfarwyddo'r awdurdod i gofrestru'r landlord.
38. Mae'r diwrnod y mae dirymiad cofrestrriad landlord yn cymryd effaith yn dibynnu ar p'un a fydd y landlord yn gwneud apêl yn erbyn penderfyniad yr awdurdod trwyddedu, neu apêl dilynol, ai peidio (gweler is-adran (8)).
39. Rhaid i'r awdurdod trwyddedu gymryd camau penodol os caiff cofrestrriad landlord ei ddirymu. Rhaid iddo hysbysu unrhyw berson ar y gofrestr sydd wedi ei benodi gan y landlord i ymgymryd, ar ran y landlord, â gwaith gosod neu waith rheoli eiddo a rhaid iddo hysbysu hefyd denantiaid neu feddianwyr eiddo cofrestredig y landlord sydd ar rent.